Cofnodion Cyfarfod Cyffredin **CYNGOR TREF RHUTHUN**
a gynhaliwyd trwy gyfrwng fideo gynadledda Zoom nos Lun, 14 Rhagfyr 2020,
yn dilyn y Cyfarfod Blynyddol am 7:00pm.

PRESENNOL: Cynghorwyr Gavin Harris (Maer), Heather Williams (Dirprwy Faer)
Y Cynghorwyr Jim Bryan, Ken Hawkins, John Wynne Hughes, Menna Jones, Ian Lewney, Robert Owen-Ellis, Anne Roberts, Mike van der Eijk ac Ifan Wyn.
Y Cynghorwyr Sir Bobby Feeley, Huw Hilditch-Roberts ac Emrys Wynne.

7. CROESO AC YMDDIHEURIADAU

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr Stephen Beach a Jabez Oakes.

8. DATGAN BUDDIANNAU

Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau buddiannau.

9. ADRODDIAD Y MAER

Adroddodd y Maer ei fod wedi mynychu cyfarfodydd Gweithgor yr Hen Lys ac y byddai'n rhannu Cysuron y Nadolig yn ddiweddarach yn y mis, gan gadw pellter cymdeithasol.

10. ADRODDIADAU'R AELODAU

Cyng. Heather Williams (Deputy Mayor)	Cyfarfodydd Gweithgor yr Hen Lys.
Cyng. Stephen Beach	Taith Iechyd a Diogelwch o gwmpas Ysgol Stryd y Rhos a chyfarfod Pwyllgor Adeiladau a Chyllid y Llywodraethwyr.
Cyng. Jim Bryan	Cyfarfodydd Gweithgor yr Hen Lys.
Cyng. Ken Hawkins	Dim i'w adrodd.
Cyng. John Wynne Hughes	Cyfarfod ynghylch y Strategaeth Gyfathrebu.
Cyng. Menna Jones	Plannu'r planhigion yn y planwyr newydd, cyfarfod Llywodraethwyr Ysgol Pen Barras a helpu yn y Banc Bwyd.
Cyng. Ian Lewney	Cyfarfod ynghylch y Strategaeth Gyfathrebu.
Cyng. Jabez Oakes	Cyfarfod ynghylch y Strategaeth Gyfathrebu.
Cyng. Robert Owen-Ellis	Sesiynau gyda'r Banc Bwyd.
Cyng. Anne Roberts	Cynorthwyo gyda'r arddangosfa yn yr Hen Lys, a chyfarfodydd Gweithgor yr Hen Lys.
Cyng. Dave Snape	Cyfarfod ynghylch y Strategaeth Gyfathrebu.
Cyng. Mike Van Der Eik	Dim i'w adrodd.
Cyng. Ifan Wyn	Cyfarfod ynghylch y Strategaeth Gyfathrebu.

11. ADRODDIAD CYNGORHWYR SIR RHUTHUN

Cyfeiriodd adroddiadau'r Cynghorwyr Sir at fireinio'r system draffig un ffordd a gyflwynwyd mewn ymateb i gadw pellter cymdeithasol oherwydd Covid-19 ac annog teithio egnïo yn dilyn adborth gan drigolion ac ymgysylltu gyda phrewylwyr yn ardal cyn Ysgol Pen Barras a Stryd y Rhos ynghylch y cynigion ar gyfer y safle.

12. COFNODION Y CYFARFOD CYFFREDIN BLAENOROL

PENDERFYNWYD*: cadarnhau fod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Tachwedd 2020 yn*

gofnodion cywir.

13. MATERION YN CODI
Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

14. COFNODION Y PWYLLGOR AMWYNDERAU
Ystyriodd yr aelodau gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Rhagfyr 2020.
PENDERFYNWYD*: derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Rhagfyr 2020.*

15. COFNODION Y PWYLLGOR CYNLLUNIO A DATBLYGU
Ystyriodd yr aelodau gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Rhagfyr 2020.
PENDERFYNWYD*: derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Rhagfyr 2020.*

16. COFNODION YR IS-BWYLLGOR CRAFFU ARIANNOL
Hysbyswyd yr aelodau fod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Tachwedd 2020 ar gael yn Saesneg yn unig. Byddai fersiwn Cymraeg a fersiwn Saesneg y cofnodion yn cael eu hanfon at y Cynghorwyr cyn diwedd yr wythnos.
PENDERFYNWYD*: aros am rannu'r cofnodion yn ddwyieithog.*

17. COFNODION PWYLLGOR Y GYMRAEG
Hysbyswyd yr aelodau fod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Tachwedd 2020 yn Gymraeg yn unig. Byddai fersiwn Cymraeg a fersiwn Saesneg y cofnodion yn cael eu hanfon at y Cynghorwyr cyn diwedd yr wythnos.
PENDERFYNWYD*: aros am rannu'r cofnodion yn ddwyieithog.*

18. STRATEGAETH GYFATHREBU
Arweiniwyd yr aelodau drwy'r Strategaeth gan y Cynghorydd Ifan Wyn, cadeirydd y Gweithgor fu'n gweithio arno. Tynnodd sylw y dylid defnyddio teitl swydd Rheolwr yr Hen Lys/Dirprwy Glerc y Dref gyda chysondeb ac y dylai enwau parth holl wefannau Cyngor Tref Rhuthun fod yn gyson. Cyfeiriodd hefyd at yr angen i'r holl gyfathrebu, yn cynnwys ar y cyfryngau cymdeithasol, fod yn ddwyieithog. Awgrymwyd fod angen cynllun gweithredu yn awr i weithredu cynnwys y strategaeth a chynllunio negeseuon a diweddariadau rheolaidd.
PENDERFYNWYD*: trefnu cyfieithu'r Strategaeth a llunio cynllun gweithredu i'w roi ar waith.*

19. YMDDISWYDDIAD CYNGHORYDD TREF
Hysbyswyd yr aelodau am lythyr gan y Cynghorydd Dave Snape yn cyflwyno ei ymddiswyddiad yn weithredol ar unwaith. Roedd ei lythyr yn datgan ei fod yn cyfeirio at eitemau a drafodwyd yn Rhan 2 yng Nghyngor Tref Rhuthun. Dywedodd aelod ei fod yn dymuno cael ei hysbysu am gynnwys y llythyr cyn derbyn yr ymddiswyddiad. Dywedodd y Clerc y byddai'n gofyn am gyngor ac yn adrodd yn ôl i'r aelodau.
PENDERFYNWYD*: anfon llythyr diolch at y Cynghorydd Snape am ei gyfraniad yn ystod ei gyfnod fel aelod o Gyngor Tref Rhuthun ac ystyried y mater yng nghyfarfod nesaf y Cyngor.*

20. CYLCH GWAITH ARFAETHEDIG PWYLLGOR RHEOLI'R HEN LYS
Hysbyswyd yr aelodau fod y Clerc a Rheolwr yr Hen Lys yn gweithio ar hyn, ac roeddynt wedi trefnu cyfarfod arall i'w drafod.
PENDERFYNWYD*: gohirio'r eitem hon tan gyfarfod nesaf y Cyngor.*

21. ADNEWYDDU AELODAETH SLCC
Gofynnwyd i'r aelodau ystyried adnewyddu aelodaeth Clerc y Dref gyda Chymdeithas Clercod

Cynghorau Lleol (SLCC).
PENDERFYNWYD*: adnewyddu aelodaeth y Clerc gyda SLCC am 2021-22.*

22. CYLLIDEB DDRAFFT AR GYFER BLWYDDYN ARIANNOL 2020-21

Roedd y Clerc yn aros am gyngor gan y cyfrifydd ynghylch pa gronfeydd wrth gefn y gellid eu trosglwyddo i'r gyllideb a byddai'n rhannu'r gyllideb ddrafft gynted ag y bo modd.
PENDERFYNWYD*: aros am rannu'r gyllideb ddrafft.*

23. DATGANIAD ARIANNOL

Gofynnwyd i'r aelodau dderbyn a chymeradwyo'r datganiad ariannol am y cyfnod yn diweddu 30 Tachwedd 2020.
PENDERFYNWYD*: derbyn a chymeradwyo'r datganiad ariannol am y cyfnod yn diweddu 30 Tachwedd 2020.*

24. CYFRIFON I'W TALU

PENDERFYNWYD*: cymeradwyo talu'r eitemau a ganlyn:*

O gyfrif cyfredol Cyngor Tref Rhuthun:

BA	Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi	Treth incwm ac Yswiriant Gwladol – Rhagfyr		£560.03
BA	Hill & Roberts	Gwasanaethau cyfrifyddu a chyflogres a thanysgrifiad Sage	*	£92.40
DU	Public Works Loan Board	Rhandaliad ad-dalu benthyciad yr Hen Lys		£3,525.42

O gyfrif Yr Hen Lys Cyngor Tref Rhuthun:

BA	BT Business	Gwasanaeth ffôn Cwmwl a band eang	*	£67.19
BA	Pearsons Glass	Gwydr wedi'i atgyfnerthu ar gyfer y stondinau arddangos	*	£252.87
BA	Hideaway	Chwe dolen lledr coch		£54.00

25. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

PENDERFYNWYD*: cadarnau mai dyddiad y cyfarfod cyffredin nesaf fydd nos Lun, 25 Ionawr 2021 am 7pm.*